**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Hydref 19eg 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Roy Tickle (is gadeirydd), Raymond Bartley, Geraint Williams, Colin L Hughes, Brian Davies, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Catherine Jones.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Fedi'r 14eg 2015.**

3. **Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

A. **Amgylchedd.** Nid oedd unrhyw fater amgylcheddol.

B. **Cyllid**

1. **Arwydd Clwb Bowlio Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Steve Chalk. Nodwyd yr e-bost.

2. **Cyfrifon:** Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Scottish Power - Gardd Dr E P Garden<br>(Rhif siec 005714) | - | £96.44 |
| (2) | CSDd - ail gyfraniad Neuadd y Dref Dinbych<br>(Rhif siec 005715) | - | £9,250.00 |
| (3) | Ernest Martin - agor a chloi giât Gardd Dr E P<br>(Rhif siec.005716) | - | £60.00 |
| (4) | Catalyst Systems - offer TG yr archif gymunedol<br>(Cofnod rhif 8 dyddiedig 20.7.15 yn cyfeirio)<br>(Rhif siec 005717) | - | £577.00 |
| (5) | Paul Liversidge - clirio llwybrau (Medi)<br>(Rhif siec 005718) | - | £170.00 |
| (6) | Sodexo - cynnal a chadw Gardd Dr E P (Medi)<br>(Rhif siec 005719) | - | £605.88 |
| (7) | Cyng Margaret Bowe - lwfans aelod (2015/2016)<br>(Rhif siec 005720) | - | £100.00 |
| (8) | Sandra Williams - gwasanaeth cyfieithu 14.9.15 (2 gyfarfod) & 21.9.15<br>(Rhif siec 005721) | - | £296.40 |
| (9) | Clerc y Dref - ad-daliad cost gwobrau ar gyfer rali geir CCTCGC<br>(Rhif siec 005722) | - | £41.97 |
| (10) | Clerc y Dref - cyfraniad Symposiwm TCE (Cofnod rhif 72 dyddiedig 27.7.15 yn cyfeirio)<br>(Rhif siec 005723) | - | £100.00 |
| (11) | Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Awst)<br>(Rhif siec 005724) | - | £16.30 |
| (12) | Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Medi)<br>(Rhif siec 005725) | - | £16.43 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (13) | Catalyst Systems - prynu arlliwiau ar gyfer argraffydd yr archif gymunedol (Rhif siec 005726) | - | £469.20 |
| (14) | Cyng Rob Parkes - lwfans aelod (2015/2016) (Rhif siec 005727) | - | £100.00 |
| (15) | Bryn Williams - cydnabyddiaeth Swyddog Dinesig (Rhif siec 005728) | - | £75.00 |
| (16) | Mike Andrews - cydnabyddiaeth Swyddog Dinesig (Rhif siec 005729) | - | £75.00 |
| (17) | Peter Glynn - cydnabyddiaeth Swyddog Dinesig (Rhif siec 005730) | - | £75.00 |
| (18) | Stuart Owen - cydnabyddiaeth Marsial Dinesig (Rhif siec 005731) | - | £80.00 |
| (19) | Cyng Raymond Bartley - lwfans aelod (2015/2016) (Rhif siec 005732) | - | £100.00 |
| (20) | Cyng Colin L Hughes - lwfans aelod (2015/2016) (Rhif siec 005733) | - | £100.00 |
| (21) | Clwb Bowlio Dinbych - ad-daliad costau teithio i gystadleuaeth Bowlio CCTCGC - Biwmares 20.9.15 (4 car) (Rhif siec 005734) | - | £60.00 |

Cyfanswm taliadau: £12,464.62

**3. Derbyniwyd a nodwyd Adroddiadau Ariannol cyfnod 1.4.15 - 30.9.15**

**4.** Nodwyd gyda diolch i glerc y dref **Adroddiad Ariannol Hanner Blwyddyn** (30.9.15) gan gynnwys y proffil arian wrth gefn.

**5.** **Cysoniad Chwarterol y Banc 2015/2016.** Yn ystod y cyfarfod archwiliwyd y cysoniad chwarterol Medi 2015 yn y llyfr cyfrifon gan yr holl aelodau oedd yn bresennol ac ardystiwyd y llyfrifiadau yn unol â hynny.

**6.** **Cymorthdaliadau**: 1. Nodwyd y llythyrau a'r e-byst yn diolch a dderbyniwyd oddi wrth (1) Clwb Hoci Dynion Dinbych, (2) Clwb Pêl Droed Tref Dinbych a (3) Ford Gron Dinbych.

2. Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (1) | Capel Mawr, Dinbych. Gohiriwyd y cais i weld beth fyddai canlyniad ceisiadau eraill. | | | |
| (2) | Deial i Deithio | - | £750 | (A.137)(Rhif siec 005735) |
| (3) | Ruthin & Denbigh Gymnastics Club | - | £250 | (A.137)(Rhif siec 005736) |
| (4) | Shirley Smith's Black Belt Academy. Gyrrwyd ffurflen gais - heb ei dychwelyd hyd yn hyn. | | | |
| (5) | Eisteddfod Ryngwladol Llangollen | - | £100 | (A.145)(Rhif siec 005737) |
| (6) | Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru | - | £100 | (A.137)(Rhif siec.005738) |
| (7) | CAB Sir Ddinbych | - | £3,500 | (A.142)(Rhif siec 005739) |
| (8) | Clwb Rotary Dinbych | - | £500 | (A.137)(Rhif siec 005740) |
| (9) | Gwefr Heb Wifrau | - | £560 | (A.137)(Rhif siec 005741) |
| (10) | Groes Goch Brydeinig | - | £100 | (A.137)(Rhif siec 005742)**.** |

**7.** **Swyddfa Archwilio Cymru -** trefniadau ar gyfer archwiliad allanol - ffurflenni blynyddol 2015/16, 2016/17 a 2018/19. Nodwyd yr wybodaeth a dderbyniwyd.

**8.** **Amgueddfa Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth y Cyng Gwyneth Kensler a'r dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Angle Surveys am arolwg mesur safle**.**
Cyfeiriodd clerc y dref hefyd at yr ohebiaeth ychwanegol a dderbyniwyd oddi wrth y Cyng Gwyneth Kensler yn gwneud cais am i'r cyngor dalu ffioedd y Pensaer a'r syrfëwr meintiau yn y swm o £700 ac £800 yn ôl eu trefn.
Rhoddwyd ystyriaeth hir i'r ohebiaeth a gofynnwyd nifer o gwestiynau. Cafodd y cyfarfod, yn ôl y wybodaeth oedd ar gael, hi'n hanodd i ddod i benderfyniad a gwnaed penderfyniad i gyfeirio'r mater at y cyngor llawn ar Hydref 26ain am ystyriaeth ac i wahodd y Cyng Kensler I'r cyfarfod i ymhelaethu ar y ceisiadau a wnaed.

**9**. Nodwyd derbyn £9.68 oddi wrth y Cyng Margaret Bowe am amnewid bathodyn pin.

**10**. **Goleuadau Nadolig.** Cyfeiriodd clerc y dref at y dyfynbris a'r rhestr eiddo a dderbyniwyd oddi wrth adran goleuadau strydoedd CSDd ar gyfer 2015.Derbyniwyd y dyfynbris yn y swm o £9,630.

Yn y man yma symudodd y cyfarfod i Ran 2

Yn dilyn cwblhau'r busnes o dan Ran 2 ac am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.52 o'r gloch.

Arwyddwyd:.......................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................